Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanrug
# Ysgol Gynradd Llanrug
# Llanrug
# Caernarfon
# LL55 4AL

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanrug, sy'n cwrdd yn Ysgol Gynradd Llanrug, ger Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad yn agor am bum bore a thri phrynhawn yr wythnos, yn ystod oriau ysgol, ac yn cynnal clwb cinio rhwng y sesiynau hyn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae lleiafrif y plant yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pump ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ebrill 2009.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'n gadarn o'u mannau cychwyn
- medrau llafar Cymraeg y mwyafrif o'r plant yn ardderchog
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gwrtais a chyfrifol
- ymarferwyr yn ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu diddori a'u cymell i lwyddo
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- gofal yr ymarferwyr yn ddiwyd a chyson
- ardaloedd dysgu ac adnoddau parod yn ysgogi'r plant ac ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir a chyson i'r gwaith dyddiol a thymor hir
- cydweithio effeithiol rhwng yr holl oedolion, yr ysgol a'r pwyllgor rheoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn llwyddiannus i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant rheolaidd yn arwain at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth ac i safonau'r plant
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- partneriaethau pwrpasol â rhieni, gofalwyr a'r ysgol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn gwneud defnydd trylwyr o gyllid i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth, yn yr adeilad a'r ardal allanol

## Argymhellion

A1 Gwella'r defnydd o ganfyddiadau'r asesu i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A2 Sicrhau bod trefniadau grwpio'r plant yn galluogi pob plentyn i gymryd rhan weithredol ymhob gweithgaredd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn cyflawni'n gadarn o'u mannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n uwch na'r, cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus.

Mae medrau llafar Cymraeg mwyafrif y plant yn ardderchog. Mae llawer yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion aeddfed a chyfoethog yn effeithiol, mewn chwarae anffurfiol a thasgau ffocws. Er enghraifft, maent yn trafod yn ddoeth y ffordd orau i adeiladu wal o friciau yn yr ardal allanol a sut i addurno brigau'n gytbwys gydag wyau Pasg. Yn ogystal, maent yn gofyn yn gwrtais, â chywirdeb yn eu hiaith, am lysiau, ffrwythau a houmous o amgylch y byrddau bwyta. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus dros ben. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn y Gymraeg yn hyderus ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn gyson, heb anogaeth oedolion. Mae bron pob plentyn yn canu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd a thraddodiadol yn frwdfrydig ac yn ynganu'n glir yn y Gymraeg.

Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen, fel darllenwyr cynnar, brwdfrydig. Maent yn ymateb yn fyrlymus i holi ymarferwyr wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau mewn storïau o'u dewis eu hunain. O ganlyniad, maent yn deall diben y lluniau a phwrpas yr ysgrifennu i gyfleu'r stori a rolau'r cymeriadau yn y stori'n llwyddiannus. Mae mwyafrif y plant yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill yn gywir. Mae gan lawer ddealltwiaeth gadarn bod gwahanol emosiynau a theimladau yn bodoli ac yn perthyn i gymeriadau unigol mewn storïau. Er enghraifft, maent yn adnabod y cymeriadau peryglus a bregus mewn stori, wrth drafod profiadau octopws o dan y môr.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn ddestlus wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Er enghraifft, maent yn ceisio ffurfio llythrennau ar sgrîn gyda dŵr brwnt, brwsh, llysiau a brigau. Mae llawer yn defnyddio pensiliau, sialc a chreonau i greu marciau a thynnu lluniau'n hyderus. Mae ychydig iawn o'r plant yn ymdrechu'n gydwybodol i ddechrau ffurfio llythrennau o'u henwau. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn llwyddo mewn profiadau ysgrifennu cynnar wrth chwarae rôl yn yr ardal adeiladu ac yn ystod tasgau ffocws.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt edafu siapiau gwahanol tri dimensiwn ar linyn, yn ôl trefn y siâp neu'r lliw. Maent yn cyfri rhifau i bump yn annibynnol gyda'r lleiafrif yn adnabod, enwi a chyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir, wrth ddidoli gwrthrychau a chreu siapiau allan o glai. Mae rhan fwyaf y plant yn wybodus bod gwahaniaethau mewn maint yn bodoli. Er enghraifft, maent yn ystyried priodweddau hadau gwahanol â chwyddwydrau, cyn iddynt eu plannu yn y pridd. Yn ogystal, maent yn esbonio'r gwrthrychau mawr, bach a chanolig yn yr ardal byd bach, wrth drafod y ceir a'r lorïau'n llwyddiannus. Mae llawer o'r plant yn trafod pwysau a chyfaint yn bwrpasol, gan ddeall bod gwahaniaeth mewn bwcedi o dywod trwm ac ysgafn a blychau gwag a llawn.

Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio TGCh yn bwrpasol wrth ymateb i heriau â llechi a theganau electronig. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau meddwl yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn arbrofi â synhwyrydd metel i ddarganfod wyau Pasg yn y gwellt a defnyddio gefel i symud wyau o un blwch i'r llall. Mae rhan fwyaf y plant yn greadigol ac arbrofol pan fyddant yn chwarae offeryn yn yr ardal gerddoriaeth a defnyddio cyfarpar priodol i greu cacennau dychmygol wrth y gegin fwd.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn bwrpasol. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw dringo, neidio a chydbwyso ar gyfarpar allanol, dawnsio i gerddoriaeth a gyrru cerbydau a beiciau yn yr awyr agored.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae fel peintio'n annibynnol a gwisgo ffedogau heb anogaeth. Maent yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain heb bryder ac maent yn canolbwyntio am gyfnodau hir.

Mae rhan fwyaf y plant yn dewis pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau yn feddylgar, neu os dymunant weithio tu mewn neu yn yr ardal allanol. Maent yn esbonio'n synhwyrol pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi eu barnau a'u hoffterau personol yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos cymhelliant yn ystod gweithgareddau annibynnol a thasgau ffocws ac yn dysgu'n gynhyrchiol. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu ac mae rhan fwyaf y plant yn rhannu a gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill. Mae llawer o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, er enghraifft wrth iddynt brintio ar bapur â phaent a phegio dillad ar lein ddillad yn yr ardal gartref.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn symud tywod mewn berfa i'r cymysgydd ac wrth eistedd yn eu tro i fwyta byrbrydau. Ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae'n anniben a phlannu hadau yn y pridd, mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb gefnogaeth gan ymarferwyr. Mae hyn yn dangos eu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd glendid a bod heintiau'n effeithio'n ddrwg ar fywyd iach.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Maent yn cymell y plant yn

fwriadus i ddysgu trwy brofiadau ymarferol. Enghreifftiau o hyn yw'r cyfleoedd buddiol i chwarae rôl yn yr ardal gartref, adeiladu ceir allan o flociau a rholio paent ar bapur i greu llun o'r gwanwyn. Ar y cyfan, mae'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Fodd bynnag, er bod y cynllunio'n fanwl a threiddgar ar y cyfan, nid yw'n gwbl seiliedig ar ganfyddiadau'r asesu. O ganlyniad, nid yw'n herio unigolion yn ddigon cyson yn erbyn y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu gweithgareddau cyffrous ar gyfer y plant fel saethu peli i mewn i rwyd yn yr ardal allanol a blasu bwydydd o wahanol wledydd. Wrth ddyfalbarhau â gweithgareddau tebyg, mae'r plant yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol, tu allan i'r adeilad a thu mewn. Enghreifftiau gweithredol o hyn yw dewis llyfrau fel unigolion yn y gornel ddarllen a defnyddio offerynnau cerddorol o'u dewis eu hunain i daro'n frwdfrydig, fel drymiau, tambwrîn a seiloffon.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod y ffyrdd gorau i herio'r plant mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant leisio eu dewisiadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach trwy ystyried eu syniadau cyn dechrau'r thema. Mae eu gwrando deallus ynghylch syniadau'r plant yn ychwanegu'n fwriadus at frwdfrydedd dyddiol y plant. Mae'n effeithio'n gadarnhaol ar eu cymhelliant, er enghraifft wrth iddynt brintio'n frwd â phaent ar eu dwylo i greu enfys liwgar a chafnu pwmpen i greu wyneb.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i gyflawni eu gorau yn gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd gwerthfawr i blant greu siapiau a marciau'n annibynnol i gofnodi beth maent newydd ei greu yn yr ardal adeiladu fel siapiau ar bapur.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn bwrpasol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio ystod o offer fel cyfrifiaduron, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio'r plant yn ystyrlon, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn yr ardal tu allan. Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus a chwarae'n fywiog ar y buarth. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n dda. Mae'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael iddynt yn neuadd yr ysgol yn achlysurol, sy'n herio'r plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau corfforol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith ardderchog. Maent yn cynorthwyo a herio'r plant yn effeithiol dros ben. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cywir a chywrain yn cefnogi'r plant i ymateb yn synhwyrol ar bob achlysur. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion aeddfed yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith Gymraeg yn datblygu'n eithriadol o dda.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a chymysgu a chreu cacennau traddodiadol.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. Mae’r profiadau’n cynnwys ymweliadau i fusnesau lleol a theithiau i dref Gaernarfon a’r castell. Mae ymwelwyr fel ffermwr ag oen a’r gwasanaethau brys yn addysgu’r plant yn effeithiol am eu milltir sgwâr a rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae’r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd a ddarparwyd ar eu cyfer.

Mae’r holl ymarferwyr yn herio’r plant yn gyson trwy dasgau ffocws ac wrth i’r plant weithio’n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae’r defnydd o’r Gymraeg yn ysgogol wrth fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog. Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o ba bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae’r plant er mwyn eu diddori ymhellach a’u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant ac awydd y plant i ddysgu yn uchel. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i ddarganfod wyau dan bentwr o wellt ac i gymharu nodweddion y tywydd dros gyfnod o ddiwrnodau.

Mae’r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghreifftiau da o hyn yw’r cyfleoedd i blant arbrofi â dŵr a phridd wrth beintio sgrîn â brwsh cyn gwneud marciau arno â moron a chreu cacennau yn y gegin fwd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn grwpio’r plant yn gwbl effeithiol ar bob achlysur. Ar adegau, mae’r plant hŷn yn tueddu rheoli grwpiau’n ormodol ac felly’n amharu ar gyfleoedd dysgu’r plant eraill.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio’n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogelwch diwyd yn perthyn i’w gwaith.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn sefydlog a chadarn. Mae’r dystiolaeth yn cyfatebu’n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae’r holl ymarferwyr yn cofnodi’r asesiadau’n rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda’r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol i nodi’r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn bob tro’n defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon trylwyr wrth gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae’r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i'r plant feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo gyda'i gilydd, arllwys diod o jygiau a gweini byrbrydau. Mae'r arferion hyn, yn ogystal â thacluso cyfarpar a chymryd eu tro fel helpwr y dydd, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod gweithgareddau cymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd, i feithrin y gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod rhan fwyaf y plant yn ystyried teimladau eu cyfoedion yn ddeallus, yn ymwneud â'i gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw ac yn arwain at fywydau iachus.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu dillad, papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn yn dileu unrhyw aflonyddwch ac ymddygiad gwael. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Adolygir cynnydd y plant yn rheolaidd a chaiff eu mannau cychwyn eu nodi'n drylwyr gan ddilyn canllawiau proffil y cyfnod sylfaen. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant, ac yn eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi unigolion gyda chefnogaeth arbenigol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant penodol gyda chymorth ychwanegol yn effeithiol, pan fo'r angen yn codi.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae hyn yn arwain at greu cymuned gwbl gynhwysol lle mae'r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan y plant, gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant eu hestyn a'u rhoi i gadw heb ymyrraeth oedolion. Mae hyn yn effeithio'n bwrpasol ar hyrwyddo synnwyr o gyfrifoldeb ymysg y plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh o ansawdd da i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau pob dydd a’u hagweddau brwdfrydig. Maent yn addysgu’r plant am wahanol wyliau a diwylliannau’r byd yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i’r plant ddathlu gwyliau o wledydd tramor fel y Flwyddyn Newydd Tseiniaidd. Yn ogystal, mae gweithgareddau dyddiol fel mynd â’r doliau o wahanol ddiwylliannau am dro yn y pramiau, yn gwella ymwybyddiaeth y plant o debygrwydd a gwahaniaethau pobl ein byd.

Mae’r adeilad o ansawdd da, yn cael ei gynnal yn effeithiol ac mae’n ddiogel. Defnyddir yr holl ofod yn yr adeilad yn synhwyrol ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog a difyr dan do. Mae’r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr, cafnau a chegin fwd. Mae’r lleoliad yn defnyddio’r holl ardaloedd hyn yn greadigol a phwrpasol.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r ardal leol yn effeithiol, drwy fynd â’r plant i amryw o leoedd i rannu mewn gweithgareddau eu milltir sgwâr, fel canolfannau anturus ac archfarchnadoedd cyfagos.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd profiadol yn rheoli tîm o ymarferwyr ymroddgar a brwdfrydig. Mae hi’n defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i greu gwelliannau i’r ddarpariaeth, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar ddeilliannau’r plant. Mae ei gweledigaeth yn sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu yn brif ffocws er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau cyson yn y lleoliad. O ganlyniad, mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran yr ymarferwyr a’r plant, sy’n cymell pawb at welliannau cyson mewn ffyrdd synhwyrol a bwriadus.

Mae amcanion a chynlluniau’r lleoliad yn effeithio ar ddysgu’r plant yn llwyddiannus. Mae parodrwydd yr ymarferwyr i ddarparu’n gyfoethog ar gyfer y plant yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar greu profiadau ysgogol iddynt. Mae’r arweinydd, yr ymarferwyr a’r pwyllgor rheoli yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn dathlu eu cyflawniadau a’u cynnydd yn effeithiol.

Mae’r arweinyddiaeth, sy’n cynnwys cyfraniad buddiol y pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddifyr ac ysgogol. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac yn cydweithio’n ddiwyd a chydwybodol fel tîm. Mae’r arferion goruchwylio a gwerthusiadau blynyddol yn gadarn a sefydlog. O ganlyniad, gwneir y gorau o arbenigedd ymarferwyr. Mae’r arweinydd a’i thîm yn canolbwyntio’n ddoeth ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl ardaloedd dysgu a gweithredu gofynion y proffil cyfnod sylfaen ar fynediad i’r lleoliad yn effeithiol. Mae’r pwyslais cryf ar ddatblygu’r iaith Gymraeg ymysg y plant yn gryfder amlwg yn y lleoliad.

Mae’r pwyllgor rheoli cefnogol yn weithredol iawn ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn sicrhau gwelliannau yn gyson. Mae’r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson a

hyfforddiant pwrpasol. O ganlyniad, maent yn herio’r arweinydd a’r ymarferwyr yn llwyddiannus i gynnal a gwella arferion y lleoliad a datblygu’r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae aelodau’r pwyllgor rheoli’n derbyn gwybodaeth am lwyddiannau ac arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r lleoliad a meysydd i’w gwella.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gadarn ac yn rhan annatod o wella arferion y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn monitro safonau’r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd, trwy ddefnyddio gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol yn effeithiol. Mae’r pwyllgor rheoli’n cymryd rhan weithredol yn y broses ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn drwyadl. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r lleoliad ac yn eu galluogi i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn hyderus ac ystyrlon.

Mae’r gweithdrefnau sefydlog i hunanarfarnu yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio’r wybodaeth a gesglir, sy’n deillio o’r gweithdrefnau pwrpasol, i bennu’r blaenoriaethau pwysicaf yn y cynllun datblygu.

Mae’r arweinyddiaeth a’r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac maent yn newid agweddau o’r ddarpariaeth yn fwriadus, ar y cyd, i ymateb i’r anghenion a nodwyd yn y cynllun datblygu. O ganlyniad, mae’r targedau yn y cynllun datblygu yn deillio’n uniongyrchol o weithdrefnau hunanarfarnu’r lleoliad. Mae’r adroddiad hunanarfarnu’n cynnwys manylion defnyddiol ynglŷn â sut a pham mae angen gwella meysydd penodol ymhellach. Yn ogystal, mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â’r targedau ar gyfer gwella.

Mae’r ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cydweithredu’n llwyddiannus. Mae’r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu’n bwrpasol at yr arfer hon. O ganlyniad, mae’r lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith ac ymdrechu’n drylwyr i wella’r cynllunio a’r ddarpariaeth barhaus.

Mae’r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu yn unol â’u cyngor yn ddoeth. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig, fel gwella profiadau i blant yn yr ardaloedd awyr agored trwy gynnwys y gegin fwd a chyfarpar anturus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n llwyddiannus gyda’r partneriaid hyn i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae cyswllt cadarnhaol iawn â’r ysgol. Mae’r lleoliad a’r dosbarth meithrin drws nesaf i’w gilydd ac mae’r plant yn symud yn naturiol o un ystafell i’r llall wrth iddynt gyrraedd oed ysgol. Mae staff penodol o’r ysgol yn ymweld â’r lleoliad yn rheolaidd i gefnogi. Mae hyn yn cryfhau trefniadau pontio’r plant yn llwyddiannus, er enghraifft,

wrth i'r ymarferwyr a'r athrawon drosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad.  Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson, sydd wedi gwella'r cysylltiadau cymunedol a'r cyfarpar yn yr ardal allanol.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus.  Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol.  Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol yn rheolaidd.  Mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol.  Yn ychwanegol, mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinwyr yn ymdrechu'n gyson ac yn llwyddo i wella pob agwedd ar waith y lleoliad.  Mae'r arweinydd diwyd a'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn defnyddio arferion pwrpasol i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn llwyddiannus.  Mae'r arferion hyn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys ac maent yn darparu hyfforddiant cyflawn ar eu cyfer, fel cymorth cyntaf a rhaglenni i wella llefaredd y plant.  O ganlyniad, defnyddir ymarferwyr yn ddeallus i dargedu anghenion y plant ac mae'r adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon i gefnogi a herio'r plant.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn sicrhau addysgu diddorol a difyr, sy'n arwain at ddysgu pwrpasol.  Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn synhwyrol i gefnogi dysgu'r plant.  Er enghraifft, mae defnydd y lleoliad o'r ardal leol fel adnodd dysgu yn effeithiol.  Yn ogystal, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd gwerthfawr o neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol a chyngherddau, a'u hardaloedd plannu i ymchwilio'n fwriadus i fyd natur a thyfiant planhigion.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a'r heriau sydd ynghlwm â hi.  Maent yn blaenoriaethu gwariant ac yn defnyddio grantiau'n ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol.  Mae gofalwyr a rhieni hefyd yn cyfrannu'n gyson i gyllido'r lleoliad, trwy ddefnyddio'r clwb cinio a chefnogi digwyddiadau cymunedol i godi arian.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol a bwriadus ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn gwella cyflawniadau'r plant trwy ddarpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth lwyddiannus.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |